RHWYDWAITH IECHYD CYHOEDDUS CYMRU

# E-FWLETIN

RHAGFYR 2023

# EDRYCH YN ÔL AR 2023



# Croeso

Croeso i rifyn Rhagfyr yr e-fwletin, lle byddwn yn edrych yn ôl dros 2023 ac yn arddangos rhai o uchafbwyntiau'r flwyddyn.


Fel y gwelwch, bu'n flwyddyn brysur arall i Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae llawer ar y gweill gennym ar gyfer 2024. Os hoffech gymryd rhan mewn unrhyw beth rydym ni'n ei wneud, cysylltwch â ni.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu dros y flwyddyn ddiwethaf a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

## Cysylltu â Ni

**Drwy anfon e-bost:**
publichealth.network@wales.nhs.uk

**Twitter:**
@RICCymru



# Cynnwys

4 Erthyglau

**Arolwg Aelodau'r Rhwydwaith**
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Digwyddiadau**
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

**E-Fwletin**
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Grŵp Cynghori**
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Ein Blwyddyn Mewn Rhifedi**
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Edrych Ymlaen**
Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

11 Rhifyn Nesaf

# Erthyglau

# Arolwg Aelodau'r Rhwydwaith


Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

Diolch enfawr i bawb a roddodd o'u hamser i lenwi'r arolwg aelodau. Rydym wedi casglu'r canlyniadau ac, ynghyd â'r grŵp cynghori, rydym wrthi'n amlygu camau gweithredu ar sail y wybodaeth a gawsom. Mae hyn wedi bod yn broses hynod werthfawr ac rydym yn edrych ymlaen at wneud gwelliannau i'r rhwydwaith a fydd, gobeithio, o les i'n holl aelodau, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.



# Digwyddiadau

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru



**Cynadleddau**

**Cynllunio ar gyfer dyfodol iach: cydweithio i greu cymunedau iachach**

Ar 9 Chwefror 2023 Uned Gymorth Asesu'r Effaith ar Iechyd Cymru (WHIASU), Iechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) yn cynnal digwyddiad i ddwyn ynghyd weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes cynllunio gofodol ac iechyd, neu sydd â diddordeb ynddo, er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o botensial cydweithio.

Rhoddodd y siaradwyr yn y digwyddiad eu safbwyntiau ar sut i gynllunio cydweithio rhwng meysydd cynllunio ac iechyd gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd; asesiadau o'r effaith ar iechyd; cyfraniadau at gynllunio darpariaeth gofal iechyd; a rhoddodd enghreifftiau o sut y gall iechyd y cyhoedd ymgysylltu â'r system gynllunio.

**Diogelu iechyd a lles yn yr argyfwng hinsawdd**

Roedd y gynhadledd hon a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2023 yn cefnogi pobl sy'n gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) neu Gyrff Cyhoeddus sy'n cynllunio neu'n dechrau eu hasesiadau risg hinsawdd lleol. Roedd y gynhadledd yn cynnwys cyflwyniad i'r canllawiau ar asesiadau risg hinsawdd lleol sy'n cael eu cynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer BGCau. Clywodd y mynychwyr fewnwelediadau allweddol o'r Asesiad diweddar o'r Effaith ar Iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar berygl newid yn yr hinsawdd i bobl a chymunedau yng Nghymru. Roedd cyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd a mewnwelediadau o waith addasu hinsawdd lleol presennol yng Nghymru.

**Gweminarau**

19 Ionawr 2023 - Cymryd camau mewn perthynas â'r argyfwng costau byw yng Nghymru

25 Ionawr 2023 - Communities4Change (C4C) Cymru

1 Chwefror 2023 - Gwydnwch Cymunedol yng Nghymru

2 Mawrth 2023 - Pam Mae Cydraddoldeb yn Well i Bawb?

19 Ebrill 2023 - Iechyd y gweithlu yng Nghymru

18 Mai 2023 - Gwella gweithio mewn partneriaeth mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

24 Mai 2023 - Dylanwadu ar y Bwlch Iechyd: Safbwyntiau o nifer o wledydd

8 Mehefin 2023 - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – cynyddu cyfleoedd iechyd a lles i'r eithaf ar gyfer pobl a chymunedau sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yng Nghymru

22 Mehefin 2023 - Mynd i'r afael ag annhegwch iechyd yng Nghymru: Llwyfan Datrysiadau Tegwch Iechyd Cymru

29 Mehefin 2023 - Canfod ac atal masnach anghyfreithlon mewn cyffuriau, alcohol a thybaco yng Nghymru

13 Gorffennaf 2023 - Asesiad o'r Effaith ar Iechyd: Cytundeb Partneriaeth Gynhwysfawr a Blaengar y Môr Tawel

10 Awst 2023 - Rôl dylunio mewn iechyd cyhoeddus

7 Medi 2023 - Mynd i wraidd y broblem – Ymagwedd System Gyfan at Bwysau Iach yng Nghymru

5 Hydref 2023 - Mynd i'r afael ag effeithiau iechyd cyhoeddus y newid yn yr hinsawdd – dysgwch sut gallwch chi a'ch tîm weithredu

11 Hydref 2023 - Plant a'r argyfwng costau byw yng Nghymru

30 Tachwedd 2023 - Ein Cynnig Iechyd Byd-eang: Adnewyddu Strategaeth Iechyd Rhyngwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru

# E-Fwletin

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

Thank you to everyone who has contributed to the e-bulletin this year:

Adferiad Recovery

Heneiddio'n Dda – Cyngor Abertawe

Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gynfan – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwasanaeth Alcohol a Chyffuriau Arbenigol Aneurin Bevan (ABSDAS)

Prifysgol Bangor

Comisiwn Bevan

Gwent Teg I Bawb

Grŵp Cydgysylltu Adeiladu Cymru Iachach

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Prifysgol Caerdydd

Gofal a Thrwsio Cymru

Cartrefi Conwy

Canolfan Lles Creadigol – Prifysgol Aberystwyth

Profiad Diwylliant a'r Gweithlu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Cyfle Cymru

Uned Gyflwyno – GIG Cymru

Trawsnewid Digidol a Gwybodeg – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Anabledd Cymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

FareShare Cymru

Bwyd Caerdydd

Pecyn Gwybodaeth am fudd-daliadau'n ymwneud â bwyd – Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Synnwyr Bwyd Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Consortiwm GrounsWell – Prifysgol Lerpwl

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Gwella Iechyd – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Plant Iach Cymru Iach (PIPYN) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Staff Iechyd Bwyd Iach – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cymru Iach ar Waith – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwelliant Cymru

Sefydliad Ymchwil a Datblygu Cymunedol – Prifysgol Wolverhampton

Rhwydwaith Llesiant Integredig – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Leonard Cheshire Cymru

Canolbarth a De Orllewin Cymru Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol – Cynor Sir Gaerfyrddin

Mind Cymru

Chanolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ar Iechyd a Llesiant y Boblogaeth

Cyfoeth Naturiol Cymru

Nesta Cymru

Cydweithio GIG Cymru

Gweithrediaeth GIG Cymru

Sgiliau Maeth am Oes® - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yr Is-adran Gofal Sylfaenol – Iechyd Cyhoeddus Cymru

Tîm Dieteteg Iechyd y Cyhoedd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Tîm Dieteteg Iechyd y Cyhoedd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Tîm Dieteteg Iechyd y Cyhoedd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ramblers Cymru

Ymchwil a Gwerthuso – Iechyd Cyhoeddus Cymru

SMART Recovery – Prifysgol Aberystwyth

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol

Gwasanaethau Cymdeithasol – Awdurdod Lleol Bro Morgannwg

SODIAT – Prifysgol Aberystwyth

Lleoedd Bwyd Cynaliadwy – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS) – Prifysgol De Cymru

Mae Banc Datblygu Cymru

Cymorth i Ddioddefwyr Cymru

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gwasanaeth Lles – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST)

Uned Penderfynyddion Iechyd Ehangach – Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Grŵp Cynghori

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae gan Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru Grŵp Cynghori sy'n cyfarfod bob tri mis, gyda'r nod o ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad cyfunol i gynorthwyo'r Rhwydwaith i ddatblygu a chyflawni ei amcanion, a'u monitro. Dyma rai o'r pethau mae'r Grŵp Cynghori yn eu gwneud:

- Cynghori ar flaenoriaethau cyffredin a'r meysydd i'r Rhwydwaith weithredu arnynt
- Cynghori ar y meini prawf ar gyfer monitro a gwerthuso llwyddiant, a chytuno arnynt
- Cynghori ar ddatblygiad a chyfeiriad y Rhwydwaith yn y dyfodol a'u llywio
- Cynghori ar aelodaeth ymroddedig o'r rhwydwaith, a sicrhau hynny
- Hyrwyddo a bod yn llysgenhadon ar ran gwaith y Rhwydwaith

Eleni, rydym wedi bod yn adolygu aelodaeth y grŵp a bu'n wych gweld wynebau newydd o amrywiaeth o sectorau gwahanol.

Un o'n haelodau yw Helen Walters, sef Uwch Ymarferydd Iechyd y Cyhoedd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Dyma ychydig o wybodaeth bellach am Helen a pham roedd hi am ymuno â'r Grŵp Cynghori



Yn sgil blynyddoedd lawer yn gweithio fel Swyddog Safonau Masnach yn Nhîm Gorfodi Bwyd a Ffermydd Rhondda Cynon Taf (RhCT), datblygais ddiddordeb brwd mewn Gwella Iechyd.

Agwedd anstatudol o'm rôl oedd cefnogi arlwywyr bwyd i ennill Dyfarniad Opsiynau Iach a, chyn hir, fi oedd Cydlynydd RhCT, ochr yn ochr â'm swyddogaeth statudol. Yn y rôl hon, gweithiais gyda sefydliadau cenedlaethol ac awdurdodau lleol ar draws Cymru. O ganlyniad i'r ffordd hon o weithio a darparu, roeddwn am wybod a dysgu mwy am arwain a galluogi newid ar draws systemau ac, felly, cofrestrais ar y radd Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus ym Mhrifysgol De Cymru. Yn ystod y radd, fe wnes i barhau i feithrin perthnasoedd o fewn y system iechyd cyhoeddus, llawer ohonynt yng Nghwm Taf Morgannwg ac, ar ddiwedd fy ngradd Meistr, cefais leoliad mis yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, lle gwelais y rôl arwain hon ar waith.

Ers 2017, rwyf wedi gweithio ym maes iechyd y cyhoedd ar raglenni cenedlaethol megis, Helpa fi i Stopio a Chymru Iach sy'n Gweithio, ac ar lefel Bwrdd Iechyd ar Pwysau Iach, Iechyd Rhywiol, MECC (Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif), Tybaco, Cyn-Diabetes a Diogelu Iechyd. Fe wnaeth y contractau tymor byr amrywiol hyn fy helpu i ddatblygu fy ngwybodaeth a'm sgiliau mewn sawl agwedd ar benderfynyddion ehangach iechyd ac i feithrin perthnasoedd rwy'n eu gwerthfawrogi'n fawr. Ar hyn o bryd rwy'n gweithio yn Nhîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg fel rhan o dîm sy'n arwain Dull System Gyfan o Fesur Pwysau Iach.

Fel aelod o Fwrdd Cynghori Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, rwy'n gobeithio parhau i feithrin perthnasoedd yn y system ac rwy'n ymrwymo i rannu dysgu, arfer gorau a chymorth er mwyn meithrin gallu yn y system iechyd cyhoeddus.

# Ein Blwyddyn Mewn Rhifedi

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

20,000+ defnyddwyr y wefan

88,000+ ymweliadau gwefan

2 cynadleddau

5,000+ golygfeydd YouTube

2,800+ X dilynwyr


16 gweminarau, 1,000+ mynychwyr

12 E-fwletinau, 2,500+ golygfeydd

2,500+ aelodau

# Edrych Ymlaen

Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru




Rydym eisoes yn cynllunio'n brysur ar gyfer 2024 ac rydym wedi cadarnhau nifer o ddigwyddiadau yn barod. Rydym wedi casglu llawer o adborth eleni o'r arolwg blynyddol, o ddigwyddiadau ac o'n Grŵp Cynghori ar agweddau amrywiol ar y Rhwydwaith a byddwn yn ei gynnwys yn ein digwyddiadau a'n e-fwletinau yn y dyfodol.

Mae llawer ohonoch wedi dweud wrthym yr hoffech rwydweithio a chydweithredu'n fwy mewn digwyddiadau, felly un peth rydym ni'n bwriadu ei roi ar brawf yn y Flwyddyn Newydd yw caniatáu i gyfranwyr aros ar-lein ar ôl y digwyddiadau er mwyn parhau â'r sgwrs wyneb yn wyneb.

Datblygiadau cyffrous eraill sydd yn yr arfaeth gennym yw ehangu ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol a symleiddio ein sianel YouTube. Yn ôl yr arfer, byddwn yn diweddaru ein gwefan yn rheolaidd, fel ei bod mor fodern a ffres â phosibl.

Os oes gennych unrhyw awgrymiadau pellach am welliannau neu os hoffech awgrymu pwnc ar gyfer y digwyddiadau, cysylltwch â ni.

Dyddiadau i'w cadw yn eich dyddiadur:

Dates for your diary:

18 Ionawr 2024 - Deall a mynd i'r afael â'r effaith a gaiff defnyddio e-sigaréts gan blant a phobl ifanc yng Nghymru i iechyd cyhoeddus

25 Ionawr 2024 – Dosbarth Meistr Gwerth Cymdeithasol: Mesur gwerth iechyd cyhoeddus

31 Ionawr 2024 – Gofal Sylfaenol Gwyrddach: sut gall gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned barhau â'r daith tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol a sero net?

8 Chwefror 2024 - Polisïau cynllunio gofodol, iechyd y cyhoedd a'r gwasanaeth iechyd: cyfleoedd i wella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

# Rhifyn Nesaf

## AMDDIFFYN IECHYD A LLES YN YR ARGYFWNG HINSAWDD

Bydd y newid yn yr hinsawdd yn cael effaith fawr ar iechyd, lles ac anghydraddoldebau yng Nghymru ac mae cynllunio ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn rhywbeth i bawb ei ystyried. Mae angen i ni gydweithio er mwyn cynllunio ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Ar gyfer ein bwletin nesaf, byddem yn croesawu erthyglau sy'n cwmpasu mentrau, polisïau neu raglenni cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, sy'n canolbwyntio ar yr effeithiau ar iechyd a lles y mae angen mynd i'r afael â nhw wrth gynllunio ar gyfer y newid yn yr hinsawdd ac ymateb iddo.

Cyfrannu

